# Alotropau carbon

## Amcanion dysgu

1 Disgrifio'r bondiau mewn gwahanol alotropau carbon.
2 Egluro sut mae adeiledd a bondiau alotropau carbon yn arwain at eu priodweddau gwahanol.

## Cyflwyniad

Carbon yw un o'r elfennau mwyaf amlbwrpas yn y tabl cyfnodol. Mae'n un o 'elfennau bywyd' sy'n bresennol ym mhopeth byw. Mae carbon mor arbennig fel bod ganddo gangen gyfan o gemeg sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer, sef cemeg organig.

Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn edrych ar adeiledd a bondiau carbon fel elfen lle mae'n ffurfio adeileddau macrofoleciwlaidd gwahanol. Mae gwahanol ffurfiau adeileddol o'r un elfen yn cael eu galw'n alotropau.

## Cyfarwyddiadau

1. Gludwch y stribed strwythur ar ymyl eich llyfr gwaith/papur.
2. Dilynwch yr awgrymiadau i ysgrifennu crynodeb o'r bondiau mewn carbon. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio gwerslyfr, canllaw adolygu neu wefan i'ch helpu. Cofiwch ysgrifennu mewn brawddegau llawn, gan ddisgrifio'r cwestiwn yn eich ateb a defnyddio geiriau allweddol priodol.
3. Ar ôl i chi orffen y stribed strwythur dylai fod gennych wybodaeth dda am wahanol alotropau carbon. Nawr, rhowch gynnig ar y cwestiwn isod i ddefnyddio eich gwybodaeth mewn cyd-destun newydd.

## Geiriau allweddol

Efallai byddwch chi eisiau defnyddio rhai o'r geiriau canlynol yn eich atebion:

Alotrop, bondio, cofalent, dadleoledig, dargludedd, dellten, enfawr, macrofoleciwlaidd, rhyngfoleciwlaidd.

## Cwestiwn dilynol

Mae ebillion dril sydd wedi'u gwneud o ddiemwnt yn cael eu defnyddio mewn sawl maes, gan gynnwys drilio porslen, carreg a choncrit.

(a) Nodwch pa un o briodweddau diemwnt sy'n golygu ei fod yn ddefnyddiol at y diben hwn.
(b) Eglurwch sut mae adeiledd a bondiau diemwnt yn arwain at y briodwedd hon.

© 2024 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

| Stribed strwythur<br>Bondiau mewn carbon | Stribed strwythur<br>Bondiau mewn carbon | Stribed strwythur<br>Bondiau mewn carbon | Stribed strwythur<br>Bondiau mewn carbon | Stribed strwythur<br>Bondiau mewn carbon |
|---|---|---|---|---|
| Copïwch y symbol atomig ar gyfer carbon. Nodwch nifer pob gronyn is-atomig mewn atom carbon a'i ffurfwedd electronau. | Copïwch y symbol atomig ar gyfer carbon. Nodwch nifer pob gronyn is-atomig mewn atom carbon a'i ffurfwedd electronau. | Copïwch y symbol atomig ar gyfer carbon. Nodwch nifer pob gronyn is-atomig mewn atom carbon a'i ffurfwedd electronau. | Copïwch y symbol atomig ar gyfer carbon. Nodwch nifer pob gronyn is-atomig mewn atom carbon a'i ffurfwedd electronau. | Copïwch y symbol atomig ar gyfer carbon. Nodwch nifer pob gronyn is-atomig mewn atom carbon a'i ffurfwedd electronau. |
| Eglurwch sut mae carbon yn ffurfio hyd at bedwar bond cofalent fesul atom. | Eglurwch sut mae carbon yn ffurfio hyd at bedwar bond cofalent fesul atom. | Eglurwch sut mae carbon yn ffurfio hyd at bedwar bond cofalent fesul atom. | Eglurwch sut mae carbon yn ffurfio hyd at bedwar bond cofalent fesul atom. | Eglurwch sut mae carbon yn ffurfio hyd at bedwar bond cofalent fesul atom. |
| Disgrifiwch adeiledd diemwnt a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau diemwnt sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd diemwnt a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau diemwnt sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd diemwnt a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau diemwnt sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd diemwnt a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau diemwnt sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd diemwnt a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau diemwnt sy'n deillio o bob nodwedd fondio.> |
| Disgrifiwch adeiledd graffit a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau graffit sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd graffit a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau graffit sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd graffit a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau graffit sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd graffit a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau graffit sy'n deillio o bob nodwedd fondio. | Disgrifiwch adeiledd graffit a'i nodweddion allweddol.<br><br>Nodwch pa rai o briodweddau graffit sy'n deillio o bob nodwedd fondio. |
| Eglurwch sut mae adeileddau graffen a graffit yn perthyn i'w gilydd. | Eglurwch sut mae adeileddau graffen a graffit yn perthyn i'w gilydd. | Eglurwch sut mae adeileddau graffen a graffit yn perthyn i'w gilydd. | Eglurwch sut mae adeileddau graffen a graffit yn perthyn i'w gilydd. | Eglurwch sut mae adeileddau graffen a graffit yn perthyn i'w gilydd. |
| Disgrifiwch ffwlerenau yn gryno ac eglurwch sut maent yn wahanol i adeileddau carbon eraill. | Disgrifiwch ffwlerenau yn gryno ac eglurwch sut maent yn wahanol i adeileddau carbon eraill. | Disgrifiwch ffwlerenau yn gryno ac eglurwch sut maent yn wahanol i adeileddau carbon eraill. | Disgrifiwch ffwlerenau yn gryno ac eglurwch sut maent yn wahanol i adeileddau carbon eraill. | Disgrifiwch ffwlerenau yn gryno ac eglurwch sut maent yn wahanol i adeileddau carbon eraill. |